**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 1af Rhagfyr 2021, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones,
K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor,
Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts,
Ms V. Roberts, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 59. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. Ball.

## 60. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – TACHWEDD 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1268 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17eg Medi – 16eg Hydref 2021 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington– taliad 8 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau – taliad 8 o 12 2021/22 |
| 1269 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Fi rheoli Hydref 2021 |
| 1270 | CThEM | 2,794.89 | Didyniadau PAYE mis Hydref 2021 |
| 1271 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg ar gyfer mis Hydref 2021 |
| 1272 | Cyflogau staff | 7,362.97 | Cyflogau staff Tachwedd 2021 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **17,551.25** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 diwrnod | 23.57 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 1.84 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.61 |
| | **Cyfanswm incwm** | **27.40** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 61. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1276 | Cyngor Sir Ddinbych | Taliadau Gwasanaeth Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington Ebrill - Rhagfyr 2021 | 11,469.00 |
| 1277 | CIPFA | Tanysgrifiad proffesiynol ar gyfer Mr. A. O. Williams (Swyddog Cyllid) | 343.50 |
| 1278 | Band Arian y Rhyl | Cyfraniad ar gyfer gwasanaeth ar Sul y Coffa | 50.00 |
| 1279 | Sant Ioan Cymru | Cyfraniad ar gyfer gwasanaeth ar Sul y Coffa | 50.00 |
| 1280 | Bernie's Miles of Smiles | Peintio wynebau ar gyfer digwyddiad 'Bouncing into Christmas' ar 11eg Rhagfyr 2021 | 100.00 |
| 1281 | TAPE Community Arts Centre | Ghostbuskers ar gyfer digwyddiad 'Bouncing into Christmas' ar 11eg Rhagfyr 2021 | 250.00 |
| 1282 | SLCC | Tanysgrifiad proffesiynol ar gyfer Mr G. J. Nickels (Clerc y Dref) | 391.00 |
| ***Cyfanswm*** | | | **£12,653.50** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 62. EITEM GAN AELOD: BID CRONFA CODI'R GWASTAD

Roedd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE yn bwriadu gofyn am gefnogaeth yr aelodau i wahodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych, Mr Gareth Roberts, i gyfarfod yn y dyfodol i ddiweddaru'r Cyngor Tref ar y bid. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Butterfield ei bod efallai ychydig yn gynnar gan nad oedd y bid eto wedi mynd i Gyngor Sir Ddinbych i'w gymeradwyo.

Awgrymodd y Cynghorydd Butterfield y dylid anfon y gwahoddiad yn y flwyddyn newydd.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi gwahoddiad i Mr Roberts yn y flwyddyn newydd.*

## 63. SIAMBR Y CYNGOR

Adroddodd Clerc y Dref bod yr offer i alluogi cyarfodydd hybrid yn y dyfodol (rhai wyneb yn wyneb a rhai o bell) i'w osod a'i gysylltu ar ddydd Gwener 3ydd Rhagfyr.

Byddai nifer o gyfarfodydd prawf yna'n cael eu trefnu cyn sesiwn hyfforddi i aelodau ar y polisi cyfarfod hybrid newydd, yr oedd Clerc y Dref yn y broses o'i ysgrifennu, ac yna cyfarfod prawf cyn mynd yn fyw.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth.*

## 64. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 65. COFNODION CYFFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ystyried yr argymhellion ynddynt er cymeradwyaeth:

Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - 8fed Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 14-19

Tynnodd Clerc y Dref sylw'r aelodau at yr argymhellion i gynyddu cyfraniadau'r Cyngor Tref tuag at Sioe Awyr Cyngor Sir Ddinbych, rhaglen Arena Digwyddiadau yr haf, a digwyddiadau Christmas Pops.

Cefnogodd yr aelodau y cynnydd gan eu bod yn teimlo eu bod o fudd mawr i'r trigolion ac yn dod â niferoedd o bobl i'r dref a oedd yn dda i'r economi lleol, yn enwedig o ystyried y 21 mis diwethaf.

Nododd yr aelodau hefyd bod lefel cyfraniad y Cyngor Tref wedi bod yn ddigyfnewid am nifer o flynyddoedd nawr, ac roedd costau i gynnal y digwyddiadau wedi cynyddu.

***PENDERFYNWYD****:*

*i) cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion.*

*ii) bod Clerc y Dref yn llongyfarch a diolch i Ms Sian Davies a'i thîm am eu gwaith caled parhaus a'u hymrwymiad i ddarparu digwyddiadau o ansawdd ar gyfer y Rhyl.*

## 66. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2022/23 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2022/23 gan gynnwys Cynllun Adfer pum mlynedd newydd a lefel praesept (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er ystyriaeth, newid, a chymeradwyo i gyfarfod y Cyngor ar 15fed Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad i'w argymell i gyfarfod y Cyngor ar 15fed Rhagfyr 2021.*

## 67. EITEM YCHWANEGOLL DIFROD STORM ARWEN

Adroddodd Clerc y Dref bod nifer o oleuadau Nadolig y Cyngor Tref yn y dref wedi eu difrodi o ganlyniad i Storm Arwen. Roedd uned Goleuadau Stryd Cyngor

Sir Ddinbych yn y broses i gyfrif yr unedau a oedd wedi eu difrodi, ond, yn ddealladwy, eu blaenoriaeth oedd symud coed a oedd wedi cwympo a oedd yn achosi rhwystrau a gwneud safleoedd penodol yn ddiogel.

Cyfeiriodd Clerc y Dref hefyd at y digwyddiad Goleuo a oedd wdi cael ei ganslo, a oedd yn achosi costau er nad oedd yn mynd rhagddo.

At hyn, roedd honiad bod un o'r goleuadau wedi difrodi wal yn ystod y storm wedi ei dderbyn, ac roedd hyn yn cael ei drin.

Cywedodd Clerc y Dref y byddai'n hysbysu'r aelodau o'r uchod unwaith y byddai wedi derbyn mwy o fanylion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth.*

**68. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………